

TOM PRICHARD Y DYN A'R CHWEDL TWM SIÔN CATTI

...ymchwiliad i fywyd a gwaith TJ Llewelyn Prichard

Cynhyrchwyd gan Rebecca Ray, Rheolwr Celfyddydau Cymunedol, Canolfan
Celfyddydau Wyeseid mewn partneriaeth gydag Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt



Tom a Twm: Y Dyn a'r Chwedl

Yn sgil cyhoeddi'r nofel gyntaf, *The Adventures and Vagaries of Twm Siôn Cati*, roedd Twm yn ffigur anfarwol yn hanes Cymru, gyda chysylltiad anorfod rhwng y ffeithiau a'r ffuglen. Roedd awdur y nofel yr un mor ddiddorol â'i bwnc. Mae hanes bywyd y bardd o Lanfair-ym-Muallt, TJ Llewelyn Prichard ac effaith ei gymeriad ar ymwybyddiaeth y genedl yn olrhain dwy agwedd hollol wahanol ar yr un stori.

Ym mis Mehefin 2015 cychwynnwyd ymchwiliad i fywyd a gwaith yr awdur lleol arloesol hwn gan Ganolfan Celfyddydau Wyeside ac Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt.

Trwy'r bartneriaeth, daeth dysgwyr a doniau creadigol o bob oed ynghyd, gan gyfuno'r celfyddydau a threftadaeth mewn prosiect hynod gyfoethog a diddorol o safbwynt hanesyddol, oedd yn ystyried themâu sy'n berthnasol hyd heddiw.

Roedd cyfnod cychwynnol y prosiect yn canolbwyntio ar ddarganfod yr hanes trwy weithio gydag ysgolheigion blaengar y DU, cymdeithasau treftadaeth lleol a rhanbarthol, actorion, athrawon a phobl ifanc. Trwy gyfres o ymweliadau, digwyddiadau a gweithdai, y nod oedd deall chwedl Twm Siôn Cati, a'r llenor oedd wedi ymroi i gadw'r hanes ar gof.

Yn ystod ail gyfnod y prosiect, cafodd myfyrwyr cyfle i ailddweud y straeon yn eu ffordd eu hunain. Dan arweiniad creawdwyr theatr ieuencid profiadol, daeth Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt a Wyeside ynghyd i ddyfeisio, cynhyrchu a pherfformio drama wreiddiol Tom a Twm, oedd yn ystyried bywydau TJ Llewelyn Prichard a Twm Siôn Cati.

Dangoswyd Tom a Twm yng ngŵyl Wyeside Tu Chwith, rhwng 22 - 24 Ebrill 2016, ac wedyn aeth ar daith i 'Willow Globe' yn Llanwrthwl a CARAD yn Rhaeadr Gwy.

Mae Wyeside yn dymuno diolch i Gyngor Celfyddydau Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri am eu cefnogaeth hael ar gyfer prosiect Tom a Twm.



1. Hanfod y chwedl: Thomas Jones Tregaron

Ymweliad cyntaf myfyrwyr dosbarth 7C Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt, oedd Tregaron, lle ganwyd Twm, Thomas Jones. Dan arweiniad Dafydd Wyn Morgan, Cymdeithas Twm Siôn Cati a Dai Hawkins, hanesydd lleol, bu'r myfyrwyr yn dysgu'r ffeithiau hanesyddol sy'n sail i'r chwedl.

Ganwyd Thomas Jones (c.1530–1609) yn Nhregaron, Ceredigion, yng ngorllewin Cymru. Catherine (neu Cati) Jones oedd enw ei fam, ac er bod rhai'n honni taw'r sgwieier lleol oedd tad anghyfreithlon Twm, mae'n fwy tebygol taw John (neu Siôn yng Nghymru), oedd ei dad, sef mab Dafydd ap Madoc ap Hywel Moetheu.

Roedd Twm Siôn Cati wedi meithrin enw iddo'i hun fel Robin Hood Cymru. Gan gychwyn fel lleidr cyffredin a lleidr pen-ffordd, magodd enw fel twyllwr cyfrwys, oedd yn crwydro cefn gwlad wrth ei fodd yn dwyn gan bobl gyfoethog.

Yn ddiweddarach, mae'n debyg i'r castiwr annwyl hepgor ei arferion drwg, gan briodi Joan, aeres Ystradffin, a bu'r ddau'n byw mewn tŷ mawr ger Tregaron. Mae'n debyg iddo ddod yn dirfeddiannwr cyfoethog, ynad, a Maer Aberhonddu. Adeg ei farwolaeth yn 79 oed, roedd yn un o hoelion wyth ei gymdeithas, mawr ei barch, ac annwyl i bawb.

Aeth y grŵp o Dregaron i ddarganfod gwlad yr arwr, gan deithio i berfeddion Gwarchodfa Natur Rhandirmwyn i Ogorf Twm Siôn Cati.

Ar lethrau Mynydd Dinas, rhyw ddeuddeg milltir o dref Llanymddyfri, yng nghanol y goedwig, mae'r afon Pysgotwr yn uno â'r Afon Tywi i lifo trwy geunant o dan yr ogof. Yn ôl y chwedl, yn y fan hyn y byddai Twm yn cuddio rhag ei brif elyn, Siryf Caerfyrddin.

Diolch i'r dirwedd anhygoel o gwmpas yr ogof, ac ymwelwyr sydd wedi ymweld â'r safle dros 300 mlynedd sydd wedi taro eu henwau ar y graig, roedd y gorffennol yn dechrau dod yn fyw i'r myfyrwyr.

Yn ddiogel yn ei ogof, gyda sŵn y dyfroedd ac adar o'i gwmpas, tybed sut oedd Twm yn teimlo, yn cuddio ar ochr y mynydd rhag yr awdurdodau? Roedd gwaith creadigol y myfyrwyr yn cofnodi pob golwg, arogl a sŵn; sylfeini eu drama a'r hanes.



2. Yr Archifau: Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Ar lafar y trosglwyddwyd hanesion cyntaf Thomas Jones - neu Twm Siôn Cati, a dechreuodd y taflenni a llyfrau cyntaf oedd yn olrhain ei gampau ymddangos tua 1763. Er mwyn ymestyn dealltwriaeth o'r gwaith ei hunan, ymweliad â Llyfrgell Genedlaethol Cymru oedd ail brofiad y myfyrwyr.

Ymddangosodd rhifyn cyntaf *'The Adventures and Vagaries of Twm Siôn Cati'* ym 1828 a'r farn gyffredinol yw taw'r nofel Gymreig gyntaf oedd hi. Ar y pryd, roedd hanes Prichard yn mynegi tlodi pobl wledig Canolbarth Cymru, gan ennyn nifer fawr i ddarllen gwaith y llenor. Ond nid oedd fersiynau canlynol yn ennill cymaint o fri yn Lloegr, ac mae cyfraniad Prichard i hanes llenyddol wedi aros yn y cysgodion am ddwy ganrif bron.

Wrth gyfeirio at fersiynau diwygiedig y nofel yn yr Archifau, roedd y myfyrwyr yn gallu gweld dylanwad y cyfnod ar weledigaeth Prichard, a gellir dilyn ei agweddau wrth iddynt newid yn y diwygiadau ymddangosodd dros gyfnod o hanner canrif.

Wrth ddysgu am y tro cyntaf ynghylch tlodi ac anghyfiawnder cymdeithasol y cyfnod Fictoraidd yng Nghymru, rhoddwyd cyfle i'r grŵp fynegi syniadau a theimladau ar fywyd yr adeg hynny ar gyfer llenor ifanc wrth iddo adael ei gartref yn Llanfair-ym-Muallt i fynd i Lundain am y tro cyntaf erioed.





"...for those working the land these are dreadful times. Higher prices, lower wages, food shortages, tenant farmers being forced out all the time, and the country teeming with absentee landowners; a poor working man is no longer allowed parish help within his own home so his only recourse is to the workhouse. Once there, forcibly separated from his family, the prospects are bleak indeed."

Tom Prichard, *Tom a Twm* gan Ralph Bolland


3. Llanfair-ym-Muallt cyfnod Prichard: Darganfod Haenau'r Gorffennol a'r Presennol

Yn y digwyddiad olaf yn ystod cyfnod cyntaf y prosiect, aeth Clwb Twm Siôn Cati ar daith gerdded trwy'r dref. Diolch i gwmni Jim Davies o Gymdeithas Treftadaeth Llanfair-ym-Muallt, cafwyd cyfle i weld lle byddai TJ Llewelyn Prichard wedi ysgrifennu ei nofel cyn i Ddân Mawr 1907 ddinistrio strydoedd Llanfair-ym-Muallt.




Ysgythriad o Lanfair-ym-Muallt yn y 1830au - Henry Gastineau

Wrth ddilyn hynt y broses o newid arweiniodd at anterth Llanfair-ym-Muallt, oedd yn cynnwys adeiladu canolfan Wyeside, cerddodd y myfyrwyr at y ganolfan i gwrdd â Sam Adams, ysgolhaig ar fywyd Prichard oedd yn hapus iawn i rannu ei wybodaeth gyda'r disgyblion.



"You don't know me. No! You have a statue of a bull out there! But me? Forgotten. Never truly known. I walked these streets and not so long ago. Charles Dickens, you know him? Byron, Shelley, Keats, all these, you nod and say - what a man of letters, what a poet! What of your own?"

Tom Prichard, *Tom a Twm* gan Ralph Bolland



4. Bywyd Tom Prichard

Mae cymaint o ddirgelwch ynghlwm wrth gymeriad ffuglen TJ Llewelyn Prichard ag ef ei hunan. Hyd yn ddiweddar, nid oedd gwir amgylchiadau genedigaeth a marwolaeth Prichard yn hysbys. Yn araf deg, daeth y gwir yn amlwg diolch i waith ymchwil gan yr ysgolhaig Sam Adams.

Bedyddiwyd Thomas Jeffrey Llewelyn Prichard, llenor ac actor, yn Eglwys y Santes Fair, Llanfair-ym-Muallt ar 29 Hydref 1790, ond ymddengys i'r teulu symud o'r ardal yn fuan wedyn. Yn ddyn ifanc, rhoddodd Prichard gynnig ar weithio fel bardd ac actor yn Llundain, ond dychwelodd i Gymru yn y gobaith y byddai ei lyfr cyntaf o gerddi'n gwerthu, ond nid felly y bu. Ym 1826 priododd Naomi James ac ym 1828 cyhoeddodd rhifyn cyntaf '*Twm Siôn Cati*'. Dychwelodd eto i fyw yn Llanfair-ym-Muallt, a dros y degawd nesaf, bedyddiwyd tri o'r pedwar o blant y cafodd y cwpl yn Eglwys y Santes Fair.


Ar ôl cyhoeddi ail rifyn '*Twm Siôn Cati*' ym 1839, tybir iddo adael y cartref teuluol, a mynd i berfformio ar lwyfannau Aberhonddu ac Aberystwyth ac i weithio am gyfnod i'r Fonesig Llanofar yn catalogio ei llyfrgell.

Ni chafodd TJ Llewelyn Prichard fyw a marw fel arwr yn debyg i'w gymeriad gorfoleddus, Twm Siôn Cati. Yn ddyn tlawd, aeth i werthu ei lyfrau o ddrws i ddrws, ond anaml iawn y byddai hyn yn talu ei gostau. Collodd ei drwyn, a bu'n rhaid iddo dreulio rhan olaf ei fywyd yn gwisgo trwyn gwêr ar bâr o sbectol. Bu'n rhaid iddo fyw mewn hofel yn Abertawe, ar wahân i'w deulu a'r gymuned oedd mor annwyl iddo, a bu'n rhaid iddo ddiodef cael ei watwar gan ddihirod lleol, a bu farw heb ddimau, pan aeth ei ddillad ar dân.

Fel y dywed TJ Llewelyn Prichard am ei hun, mae llenor '*of English-Welsh blossoms... hastily formed into a bouquet*', yn haeddu lle mewn hanes fel cychwynnydd hunaniaeth Eingl-gymreig. Ond, hefyd roedd yn gymeriad hynod ddiddorol. Dyn tlawd, haerllug, cenedlaetholwr tu allan i atgyfodiad diwylliannol ei genedl, dyn heb drwyn, budr, amleiriog oedd yn gwerthu o ddrws i ddrws, gyda gwerthoedd rhyddfrydol oedd yn teimlo dros y tlodion, roedd ymhlith meddylwyr mawr ei gyfnod.





5. 'The Adventures and Vagaries of Twm Siôn Catti'



Gwaith bywyd Prichard oedd *The Adventures and Vagaries of Twm Siôn Cati*. Ymddangosodd yr argraffiad cyntaf ym 1828, ac yn sgil llwyddiant annisgwyl yng Nghymru, treuliodd y chwarter canrif nesaf yn ceisio ei adolygu er mwyn denu darllenwyr yn Lloegr. Ond ni lwyddodd. Ac yn hollol wahanol i gampau'r cymeriad a greodd, yn y pen draw daeth bywyd Prichard i ben yn ddyn tlawd, diurddas.

Hanfod ei nofel yw ei empathi gyda'r bobl wledig dlawd, ynghyd â chipolwg cymhleth ar gysylltiadau trefedigaethol a gweledigaeth ramantus ar dirweddau a chwedlau Cymru, ac mae'n seiliedig ar broblemau gwleidyddol a diwylliannol y cyfnod. Cyhoeddwyd argraffiadau newydd, gyda diwygiadau gan Prichard, ym 1838, wedyn ym 1871 ar ôl iddo farw. Maent yn olrhain y broses o newid yng Nghymru yn ystod oes Fictoria - ac o ran hynt a helynt yr awdur ei hun. Cyhoeddwyd argraffiadau anawdurdodedig 'answyddogol' rhwng 1829 a 1871, fyddai, mae'n siŵr, wedi gwylltio Prichard, oedd ar y pryd yn byw mewn tlogi.

Nid oedd Prichard yn gallu siarad Cymraeg, a cheisiodd greu hunaniaeth Eingl-gymreig iddo hun a'r nofel, ac er i hanes werthfawrogi'r gymysgrywiaeth yma, gorffennodd Prichard ei fywyd heb ddimau. Erbyn hyn mae ei natur wrthdrawiadol, a ddeilliodd o wladgarwch a thlogi, a natur groch ei waith, yn cyfleu llais oedd yn siarad ar ran ei gyfnod.



6. Cynhyrchu'r ddrama

Trwy ysgrifennu creadigol, byrddau stori bywiog a chwarae rôl, llwyddodd y myfyrwyr i greu'r cymeriadau a'r lleoliadau oedd angen eu cyfleu trwy'r ddrama newydd.

Rhoddwyd cyfle i'r myfyrwyr weithio gyda Ralph Bolland a Kama Roberts ym maes theatr, yr artist Blue MacAskill a'r cerddor Jim Elliott, i ddylunio a chreu'r set a'r propiau a dyfeisio a pherfformio'r gerddoriaeth ar gyfer y ddrama.

Ralph Bolland ysgrifennodd y sgript a seiliwyd ar waith y myfyrwyr.

Gwen Rees, un o fyfyrwyr Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt sy'n gyfrifol am y gerdd '*Candlelight*' am waith a marwolaeth Prichard.





My father, Tom Prichard, wrote a novel - the first in Wales, because he could, because he felt someone should. He wrote a novel because he was brave and passionate enough to do it. He wrote a novel that set himself among the ordinary people and squarely against the tyranny of fear and ignorance practised by the establishment.

...

My father wrote a book that that helped to slowly change the social and cultural map of Wales. He wrote a book that mirrored the political turmoil of the time, laying out ordinary stories of the rural poor - the starving poor - and those dispossessed by land-grabbers. His writing of that book should never be forgotten.

...

My father wrote a book that made and destroyed him; the story of a character he both loved and hated; a romantic version of himself who displayed his best and worst, but shared his dearest hopes, dreams and fears with those of his countrymen. By way of thanks, his countrymen loved the book then utterly forgot the man who wrote it.

...

My father wrote a book that was funny and exciting and that poked jibes at those who had always held the whip; a book that ordinary people might recognise; of places and people; poverty and song, church and land, and the truth of all these things at long, long last. He wrote a book that ordinary people might want to read, before ordinary people did read.

Candlelight - *Gwenllian Rees, Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt, 2016*

The man knew not comfort, knew not sweet foods or silken sheets
But knew the agonies of love and hate more than any poet could ever write, than any bard could ever sing.

He sat in his desolate shadows and wrote,
The dark-inked words flowing over the butterfly-wing paper, flickering in the candlelight.
He wrote of princes and castles, lost heroes and villains, ancient lands in the light of a little candle-flame.

His life flew on, an elaborate sentence inked in flame
But still his candle burned, melting like a wax man.
His poems and stories lay around him, wet ink and paper bleeding.
The wax man burned on, flaming in agony as his life drew to an end.

The writer filled his pages with last hopes, final words, desperate measures, until his fevered hand, aching but satisfied, was stilled.
His heart of stories and legends that had beaten so strongly failed.

His papery skin crumpled, blackened, shrank.
Inky words burned and shone in the darkness.
The writer fell, just another tree in a forest of loss
But his stories lived on.

The wax man fluttered on the edge of oblivion.
Tired fingers of smoke trailed away.
Then an icy draught blew through the hovel.
Rotten beams creaked,
Frail cobwebs fractured.
The flame flared one last time
And the candle blew out

7. Tom a Twm ar Daith...





Wyeside

Created and performed by:
Builth Wells High School

Written by:
Ralph Bolland

Directed by:
Ralph Bolland & Kama Roberts

Design by:
Blue Macaskill

Musical Direction by:
Jim Elliott

a

**Tom
a Twm**

A vibrant new play devised and created by Builth Wells High School and Wyeside Arts Centre

...at CARAD
Saturday 7th May: 7pm
Tickets £8 Full, £5 Under 16's

It's 1861 on Swansea's poor street and an old man with a false nose is teased, taunted and harassed by local street urchins. As if Tom Prichard - Builth Wells' forgotten poet - didn't have enough on his (empty) plate. The arrival of an unexpected and persistent visitor, and daily hauntings from his most famous creation, Twm Sion Catf, begin to unearth the past that Prichard's left behind.

Then comes Tom's realisation: if history remembers either of them, then it's very likely to be Twm.

BAR AVAILABLE ON THE NIGHT!

CARAD.org.uk | 01597 810561 (office) | all@carad.org.uk | East St, Rhayader, LD6 5ER



WILLOW GLOBE 2016

Friday 6th May
7.30pm

A vibrant new play devised and created by Builth Wells High School and Wyeside Arts Centre, written by Ralph Bolland.

It's 1861 on Swansea's poor street and an old man with a false nose is teased, taunted and harassed by local street urchins.

As if Tom Prichard - Builth Wells' forgotten poet - didn't have enough on his (empty) plate. The arrival of an unexpected and persistent visitor, and daily hauntings from his most famous creation, Twm Sion Catf, begin to unearth the past that Prichard's left behind.

Then comes Tom's slowly dawning realisation: if history remembers either of them, then it's very likely to be Twm.

Tickets: £10 adults, £5 under 16s

To book email info@shakespearelink.co.uk or call 01597 811 487

www.shakespearelink.co.uk

The Willow Globe is signed off the A470, 4 miles south of Rhayader [f](https://www.facebook.com/willowglobe) [i](https://www.instagram.com/willowglobe) /willowglobe



Wyeside

Directed by Ralph Bolland and Kama Roberts
Design by Blue Macaskill
Musical Direction by Jim Elliott
Created and performed by Builth Wells High School



Wyeside
ARTS CENTRE

Stryd y Castell, Llanfair-ym-Muallt, LD2 3BN

www.wyeside.co.uk

Swyddfa Docynnau: 01982 552555

Swyddfa Weinyddol: 01982 553668

Rhif Cwmni Cofrestredig: 1279900 | Rhif Elusen Gofrestredig: 505656 | Rhif TAW: 289064130